# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

# 21 Medi 2020

## SL(5)606 – Rheoliadau’r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r cynllun Cychwyn Iach yn darparu talebau i fenywod beichiog o dan 18 oed neu sy'n cael budd-daliadau cymwys penodol, ac i deuluoedd sydd â phlentyn o dan bedair oed sy'n cael budd-daliadau cymwys penodol, i helpu i brynu rhai bwydydd sylfaenol fel ffrwythau, llysiau, llaeth a fformiwla babanod. Gall y rhai sy'n gymwys hefyd gael fitaminau am ddim.

Nid yw'r cynllun wedi ei ddatganoli yng Nghymru, er bod gan Weinidogion Cymru bwerau i arfer swyddogaethau penodol, fel rhagnodi bwyd Cychwyn Iach. Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau paredd wrth gyflwyno’r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006 drwy:

- ddileu'r cyfyngiad bod rhaid i “fitaminau Cychwyn Iach” gael eu darparu ar ffurf tabledi neu ddiferion yn unig; ac
- ehangu’r diffiniad o “fwyd Cychwyn Iach” i gynnwys ffrwythau a llysiau a chodlysiau mewn tun.

Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 drwy ddileu'r gofyniad contractiol a roddir ar Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol i ddarparu tystiolaeth o feichiogrwydd i unigolion wrth wneud cais i’r cynllun Cychwyn Iach (mae’r gofyniad hwn yn ddiangen oherwydd nid oes yn rhaid cyflwyno mwyach dystysgrif sy'n dangos tystiolaeth o feichiogrwydd a lofnodwyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol fel rhan o gais gan unigolyn i’r cynllun).

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
**Fe’u gwnaed ar:** 07 Medi 2020
**Fe’u gosodwyd ar:** 08 Medi 2020
**Yn dod i rym ar:** 01 Hydref 2020